Trysorydd Bwrdd Ymddiriedolwyr SMC

# Sefydliad Materion Cymreig

Ydych chi eisiau helpu i greu Cymru well at y dyfodol?

Mae Ymddiriedolwyr y Sefydliad Materion Cymreig (SMC) yn chwilio am Drysorydd newydd i ymuno â'n Bwrdd.

# Ynglŷn â'r SMC

Ni yw'r Sefydliad Materion Cymreig, prif felin drafod annibynnol Cymru. Cawsom ein sefydlu ym 1987 ac rydym yn dwyn ynghyd profiad ac arbenigedd o bob cefndir i gydweithio ar y materion pwysicaf sy'n wynebu Cymru. Rydym yn sefydliad aelodaeth, yn annibynnol ar y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol. Rydym yn elusen (rhif 1078435) a chwmni cyfyngedig drwy warant (rhif 02151006). Rydym yn falch o fod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig, ac yn llofnodwr Dim Hiliaeth Cymru ac mae gennym statws Elusen Ddibynadwy.

Ein gweledigaeth yw helpu i greu Cymru lle gall pawb ffynnu.

Ein Cenhadaeth yw ysbrydoli uchelgais Cymru: rydym yn gweithio i gefnogi prosesau llunio polisïau gwell a gwell canlyniadau economaidd a democrataidd i bobl Cymru.

Ein strategaeth yw:
- darparu llwyfannau agored, cynhwysol a gwybodus ar gyfer trafodaethau cadarn
- rhoi cyfleoedd i bobl yng Nghymru gynyddu eu gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a lleisio eu barn
- datblygu a sicrhau ymrwymiad i weithredu syniadau a all drawsnewid Cymru yn ein meysydd blaenoriaeth:
  - democratiaeth gref a hyderus
  - economi lwyddiannus, werdd a theg.

**Ein gwerthoedd yw sail popeth a wnawn:**
- **Rydym yn annibynnol**
- **Nid oes gennym unrhyw deyrngarwch i unrhyw grŵp â buddiant gwleidyddol neu economaidd**
- **Ein nod yw bod yn gynhwysol ac amrywiol**
- **Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan dystiolaeth**
- **Ein hunig fuddiant yw gweld Cymru'n ffynnu fel gwlad i weithio a byw ynddi.**

# Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn sail i bopeth a wnawn:

| | |
|---|---|
| **Annibynnol** | Rydym yn annibynnol |
| **Cyfanrwydd** | Nid oes gennym unrhyw deyrngarwch i unrhyw grŵp â buddiant gwleidyddol neu economaidd |
| **Cynwysedig** | Ein nod yw bod yn gynhwysol ac amrywiol |
| **Arloesol** | Ein hunig fuddiant yw gweld Cymru'n ffynnu fel gwlad i weithio a byw ynddi. |
| **Gwybodus** | Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan dystiolaeth |

# Rôl y Trysorydd

Rydym yn chwilio am Drysorydd newydd i ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr. Bydd y rôl, sydd hefyd yn cadeirio ein his-bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, yn helpu Tîm Gweithredol SMC a'r Swyddog Cyllid drwy oruchwylio gwaith a sefyllfa ariannol ein helusen, wrth gyfrannu a chefnogi cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad.

Bydd y trysorydd yn llywodraethu gweithgarwch y sefydliad yn effeithiol, gan sicrhau ei hyfywedd ariannol a sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau ariannol priodol yn bodoli er mwyn sicrhau bod pob cofnod ariannol, penderfyniad a dirprwyaeth yn cael eu cynnal.

# Cyfrifoldebau Allweddol

### Strategol

- Cynorthwyo a chynghori wrth ffurfio strategaeth yr Elusen gan roi sylw arbennig i sicrhau bod gan yr Elusen yr adnoddau i gyflawni'r strategaeth
- Bod yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn
- Cymryd rhan lawn yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd SMC.

## Ariannol

- Sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ariannol a'r angen i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol
- Sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth gyllidebol ac ariannol briodol am weithgareddau'r elusen, gan gynnwys Cyfrifon Blynyddol
- Sicrhau bod yr holl gyfrifon yn cael eu paratoi a'u datgelu yn y ffurf sy'n ofynnol gan gyllidwyr a'r cyrff statudol perthnasol, e.e. y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau
- Argymell gweithdrefnau, rheolaethau a pholisïau cyfrifyddu priodol i'r Bwrdd
- Goruchwylio penodi archwilwyr allanol ac adolygu'n rheolaidd
- Gweithio mewn partneriaeth agos â'r Cyd-gyfarwyddwyr a'r Swyddog Cyllid i gyflawni eu cyfrifoldebau a chyflawni eu nodau
- Sicrhau bod gan SMC bolisïau priodol ar gyfer buddsoddiadau a chronfeydd wrth gefn
- Cynghori'r Bwrdd ar oblygiadau ariannol cynlluniau a phenderfyniadau strategol SMC
- Sicrhau bod yr holl offer ac asedau yn cael eu cynnal, eu hyswirio a'u cofnodi'n ddigonol
- Sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'r holl reoliadau ariannol perthnasol
- Rheoli risg ariannol gan gynnwys hylifedd a chyfraddau llog
- Tasgau a dyletswyddau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

# Rolau a Chyfrifoldebau Ymddiriedolwr

Dylai pob Ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth a phrofiad penodol sydd ganddynt i helpu Bwrdd Ymddiriedolwyr SMC i ddod i benderfyniadau cadarn. Bydd hyn yn cynnwys craffu ar bapurau'r Bwrdd, arwain trafodaethau, canolbwyntio ar faterion allweddol, a rhoi cyngor ac arweiniad ar gais y Bwrdd neu'r tîm gweithredol ar fentrau newydd, neu faterion eraill, i faes gwaith SMC, lle mae gan yr Ymddiriedolwr arbenigedd penodol.

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, mae gan y Trysorydd fel Ymddiriedolwr y cyfrifoldebau cyffredinol canlynol:

- Cyfrannu'n weithredol at rôl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy roi cyfeiriad strategol i'r elusen, pennu cyfeiriad a pholisi cyffredinol, gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol y sefydliad a buddsoddi cronfeydd SMC yn briodol
- Sicrhau bod yr Elusen yn defnyddio ei hadnoddau i gyflawni ei hamcanion, a dim byd arall
- Sicrhau y gweinyddir yr SMC yn effeithiol ac effeithlon
- Diogelu enw da a gwerthoedd yr SMC
- Datgan unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gyflawni dyletswyddau Ymddiriedolwr
- Bod yn gyfrifol ar y cyd am weithredoedd yr SMC a'i Ymddiriedolwyr
- Cyfrannu at dasgau eraill sy'n codi o bryd i'w gilydd, fel cyfweld â staff newydd, cynnal cyfweliadau ymadael neu helpu i godi arian
- Mynychu cyfarfodydd ac is-bwyllgorau fel y bo'n briodol a darllen papurau i baratoi ar gyfer y cyfarfod
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r elusen a materion ehangach sy'n effeithio ar ei gwaith
- Helpu i godi arian i wella sefyllfa ariannol yr SMC.

# Manyleb y Person

- Ymrwymiad i amcanion elusennol a gwerthoedd yr SMC
- Cymwysterau ariannol a phrofiad uwch, yn ddelfrydol fel cyfrifydd cymwysedig neu brif swyddog ariannol
- Y gallu i fynychu cyfarfodydd a chyfrannu'n llawn atynt
- Gweledigaeth strategol
- Crebwyll da, annibynnol
- Deall a derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol bod yn ymddiriedolwr elusen
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm
- Profiad o gyllid elusennol a chodi arian
- Y gallu i ddadansoddi cynigion a chynlluniau strategol a gwerthuso eu hanghenion ariannol a'u canlyniadau
- Penderfynwr cadarn gyda'r gallu i ddarbwyllo a gwneud argymhellion amhoblogaidd i'r Bwrdd a'r uwch dîm rheoli
- Arddangos galluoedd rhyngbersonol cryf a'r gallu i feithrin cysylltiadau a rhwydweithiau a bod yn gyfforddus mewn rôl lysgenhadol
- Dangos doethineb a diplomyddiaeth, gyda'r gallu i wrando ac ymgysylltu'n effeithiol
- Y gallu i feithrin a hyrwyddo amgylchedd tîm cydweithredol
- Y gallu i ymrwymo amser i gyflawni'r rôl yn dda, gan gynnwys mynychu digwyddiadau y tu allan i oriau swyddfa ychydig o weithiau'r flwyddyn yn ogystal â mynychu cyfarfodydd Bwrdd a theithio'n achlysurol iawn
- Parodrwydd i fod ar gael i staff am gyngor ac ymholiadau ar sail ad hoc.

# Gwybodaeth bellach

## Tymor

Mae aelodau'r Bwrdd yn gwasanaethu am dymor o bedair blynedd ac yna byddant yn gymwys i gael eu hailbenodi am un tymor ychwanegol.

## Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae swyddi ymddiriedolwyr yn ddi-dâl. Fodd bynnag, gellir eu had-dalu'n llawn am unrhyw gostau ariannol sydd angen eu gwario wrth gyflawni busnes y Bwrdd.

## Lleoliad

Mae swyddfa'r IWA yng Nghaerdydd, lle mae'r rhan fwyaf o'n cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal. Rydym yn annog ein hymddiriedolwyr i ymuno â chyfarfodydd y Bwrdd yn rhithwir pan nad ydynt yn gallu bod yno'n bersonol.

## Ymrwymiad Amser

Rydym yn disgwyl i Ymddiriedolwyr fynychu o leiaf bedwar cyfarfod Bwrdd dwy awr y flwyddyn (sy'n gofyn am hyd at ddwy awr o waith paratoi yr un). Yn ogystal â hyn, mae'r Trysorydd yn cadeirio'r is-bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol sy'n cyfarfod am ddwy awr bob chwarter, tua phythefnos cyn pob cyfarfod Bwrdd.

## Gwneud cais

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol (dim mwy na dwy dudalen A4 yr un) yn amlinellu sut rydych chi'n bodloni gofynion y swydd ddisgrifiad i info@iwa.org.uk erbyn 5 o'r gloch brynhawn Gwener, 1 Tachwedd 2024. Am drafodaeth anffurfiol a chyfrinachol am y rôl gyda'n Cadeirydd, e-bostiwch info@iwa.org.uk i drefnu galwad.

# Cysyllltwch â ni

iwa

Os hoffech gael gwybod mwy am ein gwaith neu os hoffech drafod eich cais gyda ni, gallwch ein cyrraedd ar-lein neu ddod o hyd i ni yn sbarc|spark, Caerdydd.




02920 484387

info@iwa.org.uk

Ystafell 6.01, sbarc|spark
Stryd Maindy, Caerdydd
CF24 4HQ

www.iwa.wales

IWA_Wales

IWA_Wales



ZERO RACISM WALES

Living Wage for Wales

TRUSTED CHARITY MARK
LEVEL 1
NCVO Awarded 2022